

ILLEGAL DRUGS CYFFURIAU ANGHYFREITHLON

THE PROBLEM IS PROHIBITION
Y GWAHARDD YW'R BROBLEM

THE SOLUTION IS CONTROL AND REGULATION
RHEOLI A RHEOLEIDDIO YW'R ATEB

TRANSFORM
DRUG POLICY FOUNDATION

www.tdpf.org.uk

JUST WHAT IS 'THE DRUG PROBLEM'?

BETH YN HOLLOL YW'R 'BROBLEM GYFFURIAU'?

But these problems are not created by the drugs themselves. They are a direct result of the international policy that creates this vast illegal market: prohibition. Just as it did in 1920s America, prohibition stimulates crime by turning lucrative markets over to gangsters.

Ond nid cyffuriau eu hunain sy'n creu'r problemau hyn. Maen nhw'n ganlyniad uniongyrchol i'r polisi rhyngwladol sy'n creu'r farchnad anghyfreithlon enfawr hon: sef gwahardd. Yn union fel a ddigwyddodd yn y 1920au yn America, mae gwahardd ynysgogitrosedd trwy roi marchnadoedd enillfawr yn nwylo gangsters.

And, in failing to eliminate drugs, prohibition not only creates crime but simultaneously increases the dangers of drugs themselves. By placing their supply and use outside the law, it maximizes the harm they cause both to users and to wider society.

Ac, wrth fethu diddymu cyffuriau, mae gwahardd nid yn unig yn creu trosedd ond hefyd ar yr un pryd yn cynyddu peryglon cyffuriau eu hunain. Trwy roi'r broses gyflenwi a defnyddio y tu allan i'r gyfraith, mae'n sicrhau yr achosant y niwed mwyaf i'w defnyddwyr ac i gymdeithas yn fwy cyffredinol.

"THE CONTROL SYSTEM AND ITS APPLICATION HAVE HAD SEVERAL UNINTENDED CONSEQUENCES: ... A HUGE CRIMINAL BLACK MARKET ...PUBLIC HEALTH WAS DISPLACED INTO THE BACKGROUND...THE BALLOON EFFECT BECAUSE SQUEEZING (BY TIGHTER CONTROLS) ONE PLACE PRODUCES A SWELLING (NAMELY AN INCREASE) IN ANOTHER."

"MAE'R SYSTEM REOLI A'R MODD Y'I GWEITHREDIR WEDI ACHOSI SAWL CANLYNIAD ANFWRIADOL: ...MARCHNAD DDU DROSEDDOL ENFAWR ...IECHYD CYHOEDDUS WEDI'I WTHIO I'R CEFNDIR ...EFAITH FAL N WRTH I WASGU (TRWY FESURAU RHEOLI TYNNACH) MEWN UN LLE BERI CHWYDDO (SEF CYNNYDD) MEWN LLE ARALL."

ANTONIO MARIA COSTA, EXECUTIVE DIRECTOR OF THE UN OFFICE ON DRUGS AND CRIME, MARCH 2008
ANTONIO MARIA COSTA, CYFARWYDDWR GWEITHREDOL SWYDDFA'R CENHEDLOEDD UNEDIG AR GYFFURIAU A THROSEDD, MAWRTH 2008

A PROBLEM OF OUR OWN MAKING

PROBLEM A GRËWYD GENNYM NI

The first laws to prohibit drugs such as opium and cocaine were passed less than a century ago. They were extended into international anti-drug treaties at the urging of prohibition-era America. Prohibition is now enshrined in international law under the 1961, 1971 and 1988 Un drug Conventions, and UK law under the misuse of drugs Act 1971.

Pasiwyd y cyfreithiau cyntaf i wahardd cyffuriau fel opiwm a chocên lai na chanrif yn ôl. Cawsant eu hehangu i fod yn gytundebau gwrth-gyffuriau rhyngwladol ar anogaeth America adeg y gwahardd. Mae gwahardd bellach yn elfen annatod o gyfraith rhyngwladol dan Gonfensiynau Cyffuriau 1961, 1971 a 1988 y Cenhedloedd Unedig, ac o gyfraith y Deyrnas Unedig dan Ddeddf Camddefnydd Cyffuriau 1971.

For a policy that aims to eliminate drug supply and use, it has failed in spectacular style. Since 1961 illegal drug use has risen by at least 300%. Attempts to curtail drug supply have been equally ineffective, with drugs now cheaper and more available than ever before. Billions in taxpayers' money are being spent each year on a policy that is achieving the exact opposite of its stated aim.

Fel polisi sydd â'r nod o ddileu cyflenwad a defnydd cyffuriau, mae'n fethiant ysgubol. Ers 1961 mae'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon wedi codi o leiaf 300%. Bu ymgeision i dorri cyflenwad cyffuriau yr un mor aneffeithiol, ac mae cyffuriau erbyn hyn yn rhatach ac yn haws eu cael nag erioed o'r blaen. Caiff biliynau o arian trethdalwyr eu gwario bob blwyddyn ar bolisi sy'n cyflawni'r union wrthwyneb i'w nod datganedig.

GIFTING THE TRADE TO CRIMINALS

RHOI'R FASNACH YN ANRHEG I DROSEDDWYR

When high demand for drugs collides with laws that prohibit them, the result is a dramatic rise in drug prices, with low value commodities becoming, quite literally, worth more than their weight in gold. The hugely lucrative opportunities that this creates attract the violent criminal entrepreneurs who now control the world's largest criminal market, worth £300 billion a year.

Pan fydd galw mawr am gyffuriau'n gwrthdaro â chyfreithiau sy'n eu gwahardd, y canlyniad yw cynnydd dramatig ym mhrisiau cyffuriau, nes bod nwyddau o werth isel yn mynd, yn llythrennol, yn werth mwy na'u pwysau mewn aur. Mae'r cyfleon i wneud arian mawr a grëir yn sgîl hyn yn denu'r dihirod entrepreneuraidd treisgar sydd erbyn hyn yn rheoli marchnad droseddol fwyaf y byd, sy'n werth £300 biliwn y flwyddyn.

As many as one million Russians are HIV positive; nearly 90% have been infected through injecting drug use.

Mae cymaint â miliwn o Rwsiaid yn HIV-bositif; heintwyd bron i 90% ohonynt drwy chwistrellu cyffuriau.

STIMULATING DRUG-RELATED CRIME

HYBU TROSEDDU CYSYLLTIEDIG Â CHYFFURIAU

Inflated drug prices mean that low income dependent drug users often resort to property crime or prostitution to support their habits. The government estimates that this relatively small population of dependent heroin and cocaine users is now responsible for 54% of robberies, 70-80% of burglaries, 85% of shoplifting, and 95% of street prostitution. In addition, prohibition criminalises millions of (otherwise law abiding) drug using adults, making it unparalleled in its contribution to prison overcrowding and the wider crisis in the criminal justice system.

Mae prisiau chwyddedig cyffuriau'n golygu bod rhai sy'n ddibynol ar gyffuriau ac ar incwm isel yn aml yn troi at droseddau eiddo neu buteinio i gynnal eu harferion. Mae'r llywodraeth yn amcangyfrif bod y boblogaeth gymharol fach hon o ddefnyddwyr heroin a chocên dibynnol bellach yn gyfrifol am 54% o achosion o ddwyn, 70-80% o fwrgrleriaeth, 85% o ladrata o siopau, a 95% o buteindra ar y stryd. Ar ben hynny, mae gwahardd yn troi miliynau o oedolion sy'n defnyddio cyffuriau (oedolion sy'n ufudd i'r gyfraith fel arall) yn droseddwr, gan wneud cyfraniad heb ei ail at orlenwi carchardai a'r argyfwng ehangach yn y system cyfiawnder troseddol.

INCREASING RISK AND MAXIMISING HARM CYNHYDDU PERYGL A CHREU'R NIWED MWYAF

All drugs, whether legal or illegal, have their dangers. Minimising these dangers - as with prescription drugs, alcohol and tobacco – will always be a public health challenge. But, by turning drug production and supply over to gangsters and unregulated dealers peddling dangerous drugs of unknown strength and purity, prohibition increases these risks and maximises harms. It is inevitably the most vulnerable members of society who are harmed the most.

Mae peryglon i bob cyffur, boed gyfreithlon neu anghyfreithlon. Yr her barhaol i gyfundrefn iechyd cyhoeddus yw lleihau'r peryglon hyn – fel gyda chyffuriau presgripsiwn, alcohol a thybaco. Ond trwy adael busnes cynhyrchu a chyflenwi cyffuriau i droseddwr a masnachwr direolaeth sy'n delio mewn cyffuriau peryglus heb boeni am eu cryfder a'u purdeb, mae gwahardd yn cynyddu'r peryglon hyn ac yn creu'r niwed mwyaf. Yn anochel, aelodau mwyaf bregus cymdeithas a gaiff eu niweidio waethaf.

CREATING GLOBAL MAYHEM CREU LLANAST BYD-EANG

The global 'War on Drugs' is the direct cause of many of the problems in drug producing and transit countries such as Colombia and Afghanistan, and in parts of the Caribbean and S.E. Asia. By fuelling corruption and conflict, it has contributed significantly to political and economic instability all over the world.

Y 'Rhyfel ar Gyffuriau' yw achos uniongyrchol llawer o'r problemau mewn gwledydd sy'n cynhyrchu ac yn allforio cyffuriau, fel Colombia ac Affghanistan, ac mewn rhannau o'r Caribî a De-ddwyrain Asia. Trwy fwydo llygredd a gwrthdaro, mae wedi cyfrannu'n sylweddol at ansefydlogrwydd gwleidyddol ac economaidd dros y byd i gyd.

The 'drug problem' now consists overwhelmingly of the problems created by the illegal market.

Erbyn hyn, prif elfen y 'broblem gyffuriau' o bell ffordd yw'r problemau a grëir gan y farchnad anghyfreithlon.

THE PROBLEM IS PROHIBITION Y GWAHARDD YW'R BROBLEM

WHAT THE GOVERNMENT DOESN'T WANT YOU TO KNOW

BETH NAD YW'R LLYWODRAETH EISIAU ICHI EI WYBOD

In 2003 the No10 Strategy Unit produced a detailed 105-page critique of UK and international drug control policy. The report, suppressed by Government until leaked to the media (in 2005), concluded:

"Despite interventions at every point in the supply chain, cocaine and heroin consumption has been rising, prices falling and drugs have continued to reach users. Government interventions against the drug business are a cost of business, rather than a substantive threat to the industry's viability."

Yn 2003 cynhyrchoedd Uned Strategaeth Rhif 10 feirniadaeth fanwl 105 tudalen ar bolisi rheoli cyffuriau'r Deyrnas Unedig a rhyngwladol. Casgliad yr adroddiad, a fygywyd gan y Llywodraeth nes i rywun ei ollwng i'r cyfryngau (yn 2005), oedd:

"Er gwaethaf ymyriadau ym mhob pwynt yn y gadwyn gyflenwi, mae defnydd cocên a heroin ar gynnydd, mae prisiau'n gostwng ac mae cyffuriau wedi parhau i gyrraedd y defnyddwyr. I'r busnes cyffuriau, cost busnes yw ymyriadau'r Llywodraeth yn ei erbyn, yn hytrach na bygythiad sylweddol i allu'r diwydiant i ffynnu."

It also estimated that drug-motivated crime resulting from prohibition is costing the UK £19 billion per year (one third of the total cost of UK crime).

Amcangyfrifir hefyd fod troseddu cysylltiedig â chyffuriau, sy'n ganlyniad y gwahardd, yn costio £19 biliwn y flwyddyn i'r Deyrnas Unedig (sef traean o gyfanswm cost troseddu'r gwledydd hyn).

THE SOLUTION - CONTROL AND REGULATION YR ATEB – RHEOLI A RHEOLEIDDIO

DRUG USE CANNOT BE ERADICATED

NI ELLIR DILEU DEFNYDD CYFFURIAU

Drug policy can no longer be based on the fantasy of 'a drug free world'. The time has come to respond to the current crisis by effectively regulating and controlling drug use, rather than pursuing a futile and counterproductive crusade to eradicate it. Regulation and control means establishing a legal framework that governs the production and supply of drugs – it is also known as 'legalisation'. Such controls are not a panacea for all the health harms that drugs cause. However, they afford many more opportunities for us to intervene responsibly in the production, supply and use of drugs, dramatically reducing the harms suffered, by both users and the wider community.

Ni ellir seilio polisi cyffuriau ar ffantasi 'byd di-gyffuriau' mwyach. Daeth yn bryd inni ymateb i'r argyfwng presennol trwy reoleiddio a rheoli defnydd cyffuriau, yn hytrach na chynnal crwsâd ofer a gwrthgynhyrchiol i'w ddileu. Mae rheoleiddio a rheoli'n golygu sefydlu fframwaith cyfreithiol a fydd yn llywodraethu dros brosesau cynhyrchu a chyflenwi cyffuriau – hynny yw, eu 'cyfreithloni'. Nid yw mesurau rheoli o'r fath yn fodd o ddatrys yr holl niweidiau i iechyd a achosir gan gyffuriau, ond rhoddant lawer mwy o gyfleon inni ymyrryd yn gyfrifol ym mhrosesau cynhyrchu, cyflenwi a defnyddio cyffuriau, gan arwain at leihad dramatig yn y niwed a ddioddefir, gan ddefnyddwyr a hefyd gan gymdeithas yn gyffredinol.

ADDRESSING THE UNDERLYING ISSUES

RHOI SYLW I'R CWESTIYNAU SYLFAENOL

Legally regulating drugs will largely eliminate the problems associated with illegal markets. Property crime and the prison population could be halved, street prostitution ended, billions would be saved for the treasury and a major destabilising force removed from drug producing countries. Such reforms will also create an environment in which we can develop more effective policies, based on evidence rather than 'Drug War' ideology. Ending prohibition is only the first step to addressing the underlying problems - such as mental ill-health and social exclusion - that lead to problematic drug use in the first place.

Bydd rheoleiddio cyffuriau'n gyfreithiol yn dileu, i raddau helaeth, y problemau cysylltiedig â marchnadoedd anghyfreithlon. Gellid haneru troseddau eiddo a phoblogaeth y carchardai, rhoi terfyn ar buteindra ar y stryd, arbed biliynau i'r trysorlys a thynnu grym ansefydlogi mawr allan o'r gwledydd sy'n cynhyrchu cyffuriau. Bydd diwygiadau o'r fath hefyd yn creu amgylchedd lle gallwn ddatblygu polisïau mwy effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth yn hytrach nag ideoleg y 'Rhyfel ar Gyffuriau'. Dim ond y cam cyntaf yw rhoi terfyn ar y gwahardd tuag at roi sylw i'r problemau gwaelodol – fel afiechyd meddwl a dieithrio cymdeithasol – sy'n arwain at ddefnydd cyffuriau problemus yn y lle cyntaf.

OPTIONS FOR CONTROL

DEWISIADAU AR GYFER RHEOLI

The basic regulatory options are already in place for currently legal drugs. Potentially dangerous substances can be - and already are – controlled by prescription from doctors, licensed retailing (e.g. pharmacy sales or off licenses), or licensed premises (e.g. pubs). Different drugs will require different regulatory regimes in line with their associated risks, and some prohibitions will still remain outside of the legal framework – for example, supplying drugs to minors. We can learn from past successes and failures with currently legal drugs. Restrictions on public consumption, advertising and profiteering can be drawn more tightly, ethical trade can be encouraged, and we can redirect spending from enforcement to health and education. These changes are already beginning and, with your help, are likely to advance significantly in the next 5-10 years. Drug policy is at a turning point, presenting a unique opportunity to plan for the transition from criminal anarchy to government regulation. This is not a debate that invites fence-sitters. Significant political obstacles remain, and overcoming them will require a concerted effort from all of us. Transform Drug Policy Foundation is leading the reform campaign and we need your help to realise these goals.

Mae'r dewisiadau rheoleiddio sylfaenol gennym eisoes ar gyfer cyffuriau sy'n gyfreithlon ar hyn o bryd. Mae modd rheoli sylweddau a all fod yn beryglus – ac mae hynny'n digwydd yn barod – trwy bresgripsiwn gan feddygon, gwerthu dan drwydded (e.e. trwy fferyllfa neu siopau all-drwydded), neu dai trwyddedig (e.e. tafarndai). Bydd angen gwahanol drefniadau rheoleiddio ar gyfer gwahanol gyffuriau yn ôl y peryglon cysylltiedig â nhw, a bydd rhai pethau'n dal i aros y tu allan i'r fframwaith cyfreithiol – er enghraifft, cyflenwi cyffuriau i blant dan oed. Gallwn ddysgu oddi wrth lwyddiannau a methiannau'r gorffennol gyda chyffuriau sy'n gyfreithlon ar hyn o bryd. Gall cyfyngiadau tynnach gael eu gosod ar ddefnydd cyhoeddus, hysbysebu a gorelwa, gellir annog masnach foesegol, a gallwn ailgyfeirio gwariant oddi wrth gamau gorfodi i faes ieched ac addysg. Mae'r newidiadau hyn eisoes ar droed, a gyda'ch cymorth chi, mae'n debyg y gwelir camau sylweddol ymlaen yn y 5-10 mlynedd nesaf. Mae polisi cyffuriau ar groesffordd, sy'n cynnig cyfle unigryw i gynllunio ar gyfer y trawsnewid o anarchiaeth droseddol i reolaeth lywodraethol. Nid dadl sy'n gwahodd pobl i eistedd ar y ffens yw hon. Mae rhwystrau gwleidyddol yn aros o hyd, a bydd angen cydymdrech fawr gan bawb ohonom i'w goresgyn. Mae'r Sefydliad Gweddnewid Polisi Cyffuriau'n arwain yr ymgyrch dros ddiwygio ac mae arnom angen eich cymorth chi i gyflawni'r amcanion hyn.

BE PART OF THE SOLUTION

DEWISWCH FOD YN RHAN O'R ATEB

JOIN SUPPORTERS OF REFORM AND TRANSFORM PATRONS:

YMUUNWCH Â NODDWYR TRANSFORM A'R RHAI SYDD O BLAID DIWYGIO:

"If we want to help sustainable economic development in the drug-ridden states such as Colombia and Afghanistan, we should almost certainly liberalise drug use in our societies, combating abuse via education, not prohibition, rather than launching unwinnable 'wars on drugs' which simply criminalise whole societies."

**Adair Turner, Chairman of the financial services Authority,
and former director of the CBI.**

"Os am helpu datblygiad economaidd cynaliadwy yn y gwladwriaethau sydd dan ormes cyffuriau, fel Colombia ac Affghanistan, mae bron yn sicr y dylem ryddfrydoli defnydd cyffuriau yn ein cymdeithasau, gan ddefnyddio addysg, nid gwahardd, i atal cam-drin, yn hytrach na chychwyn 'rhyfeloedd ar gyffuriau' na ellir eu hennill, ac na chyflawnant ddim ond troi cymdeithasau cyfan yn droseddwy'r."

**Adair Turner, Cadeirydd yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol,
a chyn gyfarwyddwr y CBI.**

“For a long time I’ve felt that the war on drugs is a lost cause. As a parent I’m obviously aware of the dangers of drugs but it’s clear to me that these dangers are massively increased by the criminality involved in an illegal market. I’m supporting Transform because I’d like to see a more honest, rational and compassionate approach to the drug problem.”

Jonathan Ross, TV presenter (Transform Patron)

“Rydw i wedi teimlo ers tro fod y rhyfel ar gyffuriau’n achos anobeithiol. Fel rhiant, yn amlwg rwy’n ymwybodol o beryglon cyffuriau, ond mae’n glir i mi fod y peryglon hyn yn aruthrol fwy oherwydd y troseddu cysylltiedig â marchnad anghyfreithlon. Rwy’n cefnogi Transform oherwydd mi hoffwn weld agwedd fwy gonest, rhesymol a thosturiol at y broblem gyffuriau.”

Jonathan Ross, cyflwynydd teledu (Noddwr Transform)

BE PART OF THE SOLUTION

DEWISWCH FOD YN RHAN O'R ATEB

"We recommend that the Government initiates a discussion within the Commission on Narcotic Drugs of alternative ways - including the possibility of legalisation and regulation - to tackle the global drugs dilemma."

UK Parliamentary home Affairs select Committee report: 'The Government's Drug Policy: is it working?' 2002

"Argymhellwn y dylai'r Llywodraeth gychwyn trafodaeth o fewn y Comisiwn Cyffuriau Narcotig ar ffyrdd amgen – gan gynnwys y posibilrwydd o gyfreithloni a rheoleiddio – i fynd i'r afael â'r broblem gyffuriau fyd-eang."

Adroddiad Pwyllgor Dethol Seneddol y DU ar Faterion Cartref: 'The Government's Drug Policy: is it working?' 2002

"Prohibition in America in the 1920s was a disaster and the present 'War on Drugs' simply is not working. Radical new thinking is required."

Henry Hoare, Senior Partner of London bankers C Hoare & Co. (Transform Patron)

"Trychineb oedd gwahardd yn America yn y 1920au ac mae'r 'Rhyfel' bresennol ar gyffuriau'n fethiant, yn y bôn. Mae angen syniadau newydd radical."

Henry Hoare, Uwch bartner bancwyr Llundain C Hoare & Co. (Noddwr Transform)

“The centuries old war has failed. Billions of dollars have gone into the anti-drug war and it has brought only huge criminal organisations. When you have poured in money for a century surely it is time for you to decide it is not working.”

Dr E.K. Rodrigo, former Drug Tsar of Sri Lanka

“Mae’r rhyfel ganrifoedd oed wedi methu. Aeth biliynau o ddoleri i mewn i’r rhyfel yn erbyn cyffuriau heb esgor ar ddim ond cyfundrefnau troseddol anferth. A chithau wedi arllwys arian i mewn ers canrif, siawns ei bod yn bryd ichi benderfynu nad yw’n gweithio.”

Dr E.K. Rodrigo, cyn Tsar Cyffuriau Sri Lanka

“I firmly believe that there is the possibility of real social benefit through moves to effective legal regulation of drug production and supply. In the last five years the debate on drug law reform has gained a new momentum and respectability, and Transform has been at the heart of these exciting developments.”

Francis Wilkinson, former Chief Constable of Gwent Police (Transform Patron)

“Credaf yn bendant fod posibilrwydd o weld budd cymdeithasol gwirioneddol trwy symudiadau tuag at reoleiddiad cyfreithiol effeithiol dros gynhyrchu a chyflenwi cyffuriau. Yn y pum mlynedd diwethaf mae’r ddadl dros ddiwygio’r gyfraith gyffuriau wedi ennill momentwm a pharchusrwydd newydd, a bu Transform wrth galon y datblygiadau cyffrous hyn.”

Francis Wilkinson, cyn Brif Gwnstabl Heddlu Gwent Police (Noddwr Transform)

SUPPORT TRANSFORM

CEFNOGWCH TRANSFORM

As an independent charitable organisation Transform receives no government funding, relying solely on charitable trusts and individual donations to maintain and develop the organisation and our unique programme of work. We need your support.

Sefydliad elusennol annibynnol yw Transform ac felly nid yw'n derbyn dim arian gan y llywodraeth, gan ddibynnu'n llwyr ar ymddiriedolaethau elusennol a rhoddion unigol i gynnal a datblygu'r sefydliad a'n rhaglen waith unigryw. Mae angen eich cefnogaeth.

Call Danny Kushlick on 0117 941 5810 for more information or visit www.tdpf.org.uk to donate online.

Ffoniwch Danny Kushlick ar 0117 941 5810 am fwy o wybodaeth neu ewch i www.tdpf.org.uk i roi cyfraniad ar-lein.

GET INVOLVED

DEWCH GYDA NI

Visit our website to find out how you can help speed up the reform process. As an occasional activist or regular volunteer, you can make a real difference.

Dewch i'n gwefan i weld sut y gallwch chi helpu i gyflymu'r broses ddiwygio. Wrth weithredu'n achlysurol neu fel gwirfoddolwr rheolaidd, gallwch wneud gwahaniaeth go iawn.

FIND OUT MORE

DYSGWCH FWY

Visit the Transform website (www.tdpf.org.uk) for briefings on key topics, news, policy analysis, and links. You can also subscribe to the free monthly email newsletter, download our publications, browse the media archive, or read about and discuss the latest issues on our blog.

Ewch i wefan Transform (www.tdpf.org.uk) i gael y diweddaraf ar bynciau allweddol, newyddion, dadansoddiad polisi, a dolenni cyswllt. Gallwch danysgrifio hefyd i'n cylchlythyr ebost misol yn rhad ac am ddim, lawrlwytho ein cyhoeddiadau, pori'r archif cyfryngau neu ddarllen am y pynciau diweddaraf a'u trafod ar ein blog.

For a full exploration of the key themes in the drug policy reform debate and detail on how legal regulation of drug markets will operate - read Transform's report:

Am drafodaeth lawn ar y themâu allweddol yn y ddadl ynghylch diwygio polisi cyffuriau a manylion ynghylch sut y gellir rheoleiddio marchnadoedd cyffuriau o dan y gyfraith – darllenwch adroddiad Transform:

'AFTER THE WAR ON DRUGS – OPTIONS FOR CONTROL'

For a guide to making the case for legal regulation and control of drugs read:

Am arweiniad i ddadlau'r achos o blaid rheoli a rheoleiddio cyffuriau dan y gyfraith, darllenwch:

'AFTER THE WAR ON DRUGS - TOOLS FOR THE DEBATE'

*Both available to download free from www.tdpf.org.uk
Mae'r ddau ar gael i'w lawrlwytho am ddim o www.tdpf.org.uk*

Transform Drug Policy Foundation
Transform – y Sefydliad Gweddnewid Polisi Cyffuriau
Easton Business Centre
Felix Rd, Bristol Bryste BS5 OHE
Tel: Ffôn: 0117 941 5810
Email: Ebost: info@tdpf.org.uk
Web: Gwefan: www.tdpf.org.uk

TRANSFORM DRUG POLICY FOUNDATION IS A REGISTERED CHARITY
MAE'R SEFYDLIAD GWEDDNEWID POLISI CYFFURIAU – TRANSFORM –
YN ELUSEN GOFRESTREDIG

NO. 1100518 AND LIMITED COMPANY NO. 4862177
RHIF 1100518 AC YN GWMNI CYFYNGEDIG RHIF 4862177

Transform Drug Policy Foundation exists to promote sustainable health and wellbeing by bringing about a just, effective and humane system to regulate and control drugs at local, national and international levels.

Mae'r Sefydliad Gweddnewid Polisi Cyffuriau'n bodoli i hyrwyddo iechyd a lles cynaliadwy drwy sicrhau trefn gyfiawn, effeithiol a gwâr i reoleiddio a rheoli cyffuriau ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

- Carries out research, policy analysis and innovative policy development
- Ymchwilio, dadansoddi polisi a datblygu polisiau arloesol
- Challenges government to demonstrate rational, fact-based evidence to support its policies and expenditure
- Herio'r llywodraeth i ddangos tystiolaeth ffeithiol, resymol i gefnogi ei pholisiau a'i gwariant
- Promotes alternative, evidence-based policies to parliamentarians, government and government agencies
- Hyrwyddo polisiau amgen, seiliedig ar dystiolaeth, i seneddwyr, llywodraeth ac asiantaethau'r llywodraeth
- Advises non-governmental organisations whose work is affected by drugs
- Cynghori cyrff anllywodraethol sy'n gwneud gwaith sy'n berthnasol i gyffuriau
- Provides an informed, rational and clear voice in the public and media debate on UK and international drug policy
- Cynnig llais gwybodus, rhesymol a chlir yn y ddadl gyhoeddus a chyfryngol yngl n â pholisi cyffuriau'r Deyrnas Unedig a rhyngwladol

Factual references for this leaflet are available at www.tdpf.org.uk
Ceir cyfeiriadaeth ffeithiol berthnasol i'r daflen hon yn www.tdpf.org.uk